

*Arolwg Orlhain Ymddygiad
2023 Gweithredu ar
Hinsawdd Cymru 2023*

Adroddiad Arolwg Llinell Sylfaen



Paratowyd ar gyfer:
SBW Advertising/ Llywodraeth Cymru

Paratowyd gan:
Beaufort Research



Manylion cyswllt

Cysylltiadau asiantaeth: Fiona McAllister, Owen Knight

Arolwg Orlhain Ymddygiad 2023 Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

Tachwedd 2023

Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa

Caerdydd

CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Telerau Contract

Oni bai y cytunir fel arall, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn hawlfraint i Beaufort Research Ltd a ni cheir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi ddim ond yn cael ei gadw'n ôl ar sail anghywirdeb neu gamliwiad.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir nodi: Beaufort Research Ltd fel darparwr, maint y sampl a dyddiadau maes.

© Beaufort Research Ltd 2023

Gwnaed y gwaith ymchwil hwn yn unol ag ISO 20252



Cynnwys

1. Cyflwyniad ac amcanion	4
2. Dull	4
3. Canfyddiadau ymchwil.....	6
3.1 Ymddygiad presennol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.....	6
3.1.1 Camau sy'n cael eu cymryd (dim awgrymiadau)	6
3.1.2 Ymddygiadau awgrymedig.....	7
3.1.3 Trosolwg o gamau a rhwystrau i weithredu, fesul thema	8
3.2 Gwybodaeth am y camau y gall unigolion eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd	16
3.3 Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (byrdymor a thymor hwy).....	18
3.4 Deall pa gamau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd	21
4. Crynodeb a chasgliadau	23
Atodiad 1 – Holiadur Ymchwil.....	25

1. Cyflwyniad ac amcanion

Comisiynwyd Beaufort gan SBW Advertising yn ystod haf 2023 i gynnal arolwg yn asesu:

- Ymddygiad presennol y cyhoedd o ran gweithredoedd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Parodrwydd y cyhoedd i fabwysiadu ymddygiadau penodol yn y dyfodol.
- Gwybodaeth am weithredoedd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Lle ceir gweithredu, pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd.
- Lle na cheir unrhyw weithredu, beth yw'r prif rwystrau i wneud hynny.
- Tybiaethau o ba weithredoedd fydd yn cael yr effaith fwyaf ar newid hinsawdd.

Dyluniwyd arolwg 2023 i ddarparu data llinell sylfaen cyn lansio prif gam ymgyrch gyfathrebu Gweithredu ar Hinsawdd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ddechrau'r hydref. Y bwriad yw ailadrodd yr arolwg yn flynyddol i fonitro unrhyw newidiadau dros amser.

Mae'r arolwg olrhain ymddygiad yn ategu cyfathrebu rheolaidd sy'n olrhain gwaith ymchwil sy'n monitro perfformiad yr ymgyrch.

Dyma nodau cyffredinol yr arolwg olrhain ymddygiad:

- Monitro ymddygiad a gwybodaeth y cyhoedd a'u dealltwriaeth o weithredoedd a all helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Asesu parodrwydd i fabwysiadu ymddygiadau penodol i helpu i liniaru newid hinsawdd.
- Olrhain unrhyw newidiadau ar y mesurau hyn dros oes ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru.

2. Dull

Cynhaliwyd yr arolwg llinell sylfaen fel arolwg ad hoc ond roedd yn ailadrodd dull [Omnibws Cymru](#) er hwylustod olrhain yn y dyfodol. Yn yr un modd â'r Omnibws, bwriadwyd i'r sampl gynrychioli'r boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru ac yn 16 oed a hŷn.

Cyfwelwyd 1,000 o oedolion ar-lein gan ddefnyddio plattfform cyfnewid panel Cint™. Mae plattfform Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau diwydiant amrywiol gan gynnwys ISO 20252 – y safon ansawdd ryngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil i'r farchnad. Mae archwiliadau ansawdd data lluosog¹ wedi'u hymgorffori yn system Cint™ ac mae Beaufort yn ymgorffori ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn eithrio ymatebwyr sy'n methu'r archwiliadau hyn.

¹ Diben yr archwiliadau hyn yw sicrhau bod pobl go iawn yn ateb cwestiynau'r arolwg, i atal ymatebion ailadroddol a sicrhau y rhoddir sylw digonol i'r cwestiynau i ddarparu data o ansawdd uchel.

Roedd yr arolwg yn ddarostyngedig i gyd-gloi rheolaethau cwota demograffig oed gyda rhywedd. Pennwyd rheolaeth cwota ar wahân pellach ar sail gradd gymdeithasol³ a chynhaliwyd arolygiadau gyda thrigolion pob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y cam dadansoddi, pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grŵp awdurdod lleol a gradd gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu ffigurau Cyfrifiad 2021 ac yn cynrychioli pobloged 16 oed a hŷn Cymru.

Roedd yr arolwg yn seiliedig ar holiadur strwythuredig (gweler Atodiad 1). Roedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellid ei gyflawni yn yr iaith a ffafriwyd gan y rhai a gymerodd ran. Cymerodd y cyfweiliadau gyfartaledd o 13 munud i'w cwblhau.

Gwnaed gwaith maes rhwng 26 Gorffennaf a 2 Awst 2023. Cwblhawyd a dadansodwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweiliadau. Darparwyd tabliadau data o'r arolwg mewn adroddiad technegol ar wahân.

² Niferoedd targed o gyfweiliadau wedi'u pennu ar gyfer grwpiau demograffig penodol o fewn y boblogaeth yw rheolaethau cwota, i helpu i sicrhau sampl gynrychiadol ar gyfer yr arolwg. Mae cyd-gloi rheolaethau cwota demograffig yn golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oed o fewn rhywedd.

³ System ddsbarthu yn seiliedig ar alwedigaeth yw gradd gymdeithasol, a ddatblygwyd i'w defnyddio ar yr Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol (NRS). Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd

C1: Galwedigaethau goruchwyllo, clerigol ac is-reoli, gweinyddol a phroffesiynol

C2: Gweithwyr llaw crefftus

DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a heb sgiliau, pensynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro a gradd isaf, di-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig.

3. Canfyddiadau ymchwil

3.1 Ymddygiad presennol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd


3.1.1 Camau sy'n cael eu cymryd (dim awgrymiadau)

Pan ofynnwyd cwestiwn agored am yr hyn yr oeddent yn ei wneud, os o gwbl, i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, rhoddodd bron i naw o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd (89%) enghreifftiau o gamau yr oeddent yn eu cymryd. Dim ond 5% ddywedodd eu bod yn gwneud dim. Pobl iau (16-24 oed) a'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol llai llewyrchus yn gyffredinol oedd leiaf tebygol o sôn am gymryd unrhyw gamau i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (85% ac 86% yn eu trefn, o'u cymharu ag 89% yn gyffredinol).

Yr ymddygiad i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd y cyfeiriwyd ato fwyaf oedd **ailgylchu**. Dywedodd bron i chwech o bob deg o'r ymatebwyr (56%) yn ddigymell eu bod yn ailgylchu/ yn ailgylchu mwy/ yn ailgylchu popeth y gallent. **Lleihau'r defnydd o ynni** oedd yr ymddygiad mwyaf cyffredin nesaf â bron i un o bob pedwar o ymatebwyr (23%) yn rhoi enghreifftiau fel diffodd dyfeisiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gostwng tymheredd eu gwres canolog a defnyddio offer sy'n arbed ynni. Ychydig islaw hyn, cyfeiriodd cyfran debyg at **ddewisiadau trafnidiaeth gwyrdd** – dywedodd 13% eu bod yn defnyddio eu ceir yn llai aml/ yn gyrru llai/ ddim yn berchen ar gar a dywedodd 9% arall eu bod yn cerdded/ beicio mwy y dyddiau yma. Cyfeiriwyd at bob ymddygiad arall yn ddigymell gan gyfrannau llai o ymatebwyr (7% neu lai).

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y camau mwyaf cyffredin sy'n cael eu cymryd.

Ffigur 1: Prif gamau* sy'n cael eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (digymell) %



Sylfaen: Pawb (1,000)

*Camau y cyfeiriwyd atynt yn ddigymell gan 5% neu fwy o'r sampl

3.1.2 Ymddygiadau awgrymedig

Awgrymwyd cyfres o wahanol ymddygiadau a allai helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd i'r ymatebwyr wedyn (mewn trefn ar hap) a gofynnwyd iddynt a oeddent yn cymryd unrhyw gamau i wneud pobl un o'r rhain y dyddiau yma. Ar gyfer pob un, gallent ddewis pa un a:

- Oeddent yn gwneud cymaint ag y gallent (neu eisoes wedi ei wneud, mewn ychydig o achosion lle'r oedd y cam yn gyfyngedig, e.e. gosod mesurydd clyfar)
- Oeddent yn gwneud rhywbeth ond ei bod yn debyg y gallent wneud mwy, neu
- Oeddent yn gwneud dim.

Ar ôl tynnu'r rhai a ddywedodd nad oedd pob ymddygiad yn berthnasol iddyn nhw allan, yr ymddygiadau â'r **niferoedd mwyaf** ar y cyfan, y cwbl yn cael eu gwneud nawr gan dros wyth o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd, oedd:

- Ailgylchu mwy (**98% yn gwneud i ryw raddau ar hyn o bryd**/ 2% ddim yn gwneud o gwbl)
- Lleihau eu gwastraff bwyd (**95% yn gwneud**/ 5% ddim yn gwneud)
- Lleihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr (**94% yn gwneud**/ 6% ddim yn gwneud)
- Lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (**90% yn gwneud**/ 10% ddim yn gwneud)
- Ailddefnyddio pethau pan fo'n bosibl (**89% yn gwneud**/ 11% ddim yn gwneud)
- Trwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (**87% yn gwneud**/ 12% ddim yn gwneud)
- Addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (**86% yn gwneud**/ 14% ddim yn gwneud).

Ymhlith y rhai a ddywedodd bod pob cam yn berthnasol, roedd amrywiadau amlwg i'w gweld rhwng rhai ymddygiadau o ran lle i wneud mwy. Gan adlewyrchu goruchafiaeth ailgylchu yn y cwestiwn agored am gamau sy'n cael eu cymryd, dywedodd dros dri o bob pedwar (77%) eu bod **eisoes yn gwneud cymaint ag y gallent** i ailgylchu mwy. Yn yr un modd, roedd dros chwech o bob deg (64%) yn teimlo eu bod yn gwneud gymaint ag y gallent i leihau eu gwastraff bwyd, a dywedodd cyfrannau tebyg hyn am osod mesurydd clyfar (59%) a lleihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr (56%).

Er bod tua phedwar o bob deg o ymatebwyr yr oedd yn berthnasol iddynt yn teimlo eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent i leihau'r hyn y maent yn ei brynu (46%), i ailddefnyddio pethau pan fo'n bosibl (45%), i drwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (44%), ac i addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (40%), roedd cyfrannau tebyg yn teimlo **ei bod yn debyg y gallent wneud mwy** ym mhob un o'r meysydd hyn.

Roedd llai o'r rhai a ddywedodd ei fod yn berthnasol iddyn nhw yn teimlo eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent yn siopa a bwyta'n gynaliadwy (llai na thri o bob deg yn y ddau achos), ond roedd tua hanner yn cydnabod bod **lle i wneud mwy** ar gyfer y ddau.


Dyma'r ymddygiadau â'r **niferoedd isaf ar hyn o bryd**:

- Newid i gerbyd allyriadau is (hybrid neu drydan) (67% o'r rhai lle'r oedd yn berthnasol ddim yn ei wneud ar hyn o bryd)
- Newid i ynni adnewyddadwy (65% o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt ddim yn ei wneud)

- Newid i dariff ynni gwyrdd (42% yr oedd yn berthnasol iddynt ddim yn gwneud)
- Gosod mesurydd clyfar (28% yr oedd yn berthnasol iddynt ddim yn gwneud).

Mae dadansoddiad llawn o ymatebion ar bob ymddygiad ar gael yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Ymddygiad presennol awgrymedig i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, %



Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 746 i 995)

3.1.3 Trosolwg o gamau a rhwystrau i weithredu, fesul thema

Mae'r adran hon yn crynhoi'r camau sy'n cael eu cymryd eisoes i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn ogystal â'r prif rwystrau sy'n atal rhai pobl rhag mabwysiadu pob ymddygiad. Trafodir yr ymddygiadau yn ôl thema, sef:

- Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd
- Dewisiadau Teithio Gwyrdd
- Dewisiadau Prynu Gwyrdd

- Dewisiadau Bwyd Gwyrdd.

Mae Tabl 1 yn dangos sut mae'r ymddygiadau wedi'u grwpio fesul thema:

Tabl 1: Ymddygiadau wedi'u grwpio fesul thema

Thema	Ymddygiadau a brofwyd
Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd	Lleihau eich defnydd o ynni cartref a dŵr
	Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni
	Gosod mesurydd clyfar
	Newid i dariff ynni gwyrdd
	Newid i ynni adnewyddadwy
Dewisiadau Teithio Gwyrdd	Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy
	Gyrru llai a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu a rennir mwy
	Hedfan llai
	Newid i gerbyd allyriadau is
Dewisiadau Prynu Gwyrdd	Ailgylchu mwy
	Aildefnyddio pethau pan fo'n bosibl
	Trwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd
	Lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu
	Siopa'n gynaliadwy
Dewisiadau Bwyd Gwyrdd	Lleihau eich gwastraff bwyd
	Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy

Pan roddodd ymatebwyr ateb **cadarnhaol** i ymddygiad penodol, gofynnwyd cwestiwn dilynol iddynt a oedd yn rhestru amrywiaeth o gamau posibl yn gysylltiedig â phob ymddygiad a gallent ddethol pa gamau yr oeddent yn eu cymryd ar y pryd. Nid yw'r adroddiad hwn yn trafod camau sy'n cael eu cymryd yn fanwl, ond mae'r canlyniadau llawn ar gael yn y tabliadau data.

Dangoswyd rhestr o resymau posibl am beidio â gwneud pob ymddygiad i'r rhai a roddodd ateb **negyddol** i bob un, a gofynnwyd iddynt beth oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Trafodir y prif rwystrau ar gyfer pob thema yn yr adran berthnasol isod.

Gan edrych ar bob thema yn ei dro:

Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd

Mae Tabl 2 yn crynhoi ymddygiad presennol ynghylch **Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd**. Mae'n dangos bod y rhai yr oedd pob cam yn berthnasol iddynt yn fwy tebygol o fod yn lleihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr, addasu eu cartref i'w wneud yn fwy

effeithlon o ran ynni a gosod mesurydd clyfar na bod wedi newid i dariff ynni gwyrdd neu ynni adnewyddadwy.

Er bod cyfrannau'r rhai a ddywedodd eu bod eisoes yn cymryd camau i leihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr ac addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni yn uchel (94% ac 86% yn eu trefn), roedd tua phedwar o bob deg yn teimlo ei bod yn debyg y gallent wneud mwy am y ddau.

Tabl 2: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau a brofwyd	% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/eisoes wedi gwneud*	% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy **
Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd	Lleihau eich defnydd o ynni cartref a dŵr	94	38
	Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni	86	46
	Gosod mesurydd clyfar	71	13
	Newid i dariff ynni gwyrdd	53	22
	Newid i ynni adnewyddadwy	34	20

Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 859 i 995)

* Cyfanswm y rhai hynny yn ateb 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf'/'Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'

**Mae'r cyfleoedd mwyaf i gynyddu wedi'u cysgodi

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn gweithredu o ran pob ymddygiad ar hyn o bryd beth oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Darparwyd rhestr o rwystrau posibl ar gyfer pob ymddygiad Dewis Ynni Cartref Gwyrdd a gallai'r ymatebwyr ddewis pob un a oedd yn berthnasol neu ysgrifennu unrhyw rwystr/au arall/eraill yr oeddent yn dymuno.

Tybiaeth y byddai'n **costio gormod/ yn rhy ddrud** oedd y prif rwystr i wneud rhai o'r Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd. Nodwyd cost gan dros hanner (54%) y rhai nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd i addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni a chan bedwar o bob deg (40%) o'r rhai a oedd wedi gwneud dim am newid i ynni adnewyddadwy.

Y prif reswm a roddwyd gan bron i hanner (47%) y rhai nad oeddent wedi gosod mesurydd clyfar neu a oedd yn gwneud dim am drefnu i un gael ei osod oedd **nad oeddent wedi'u hargyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud**.

Ni ddaeth un rhwystr pennaf i'r amlwg fel un sy'n atal pobl rhag lleihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr neu newid i dariff ynni gwyrdd. Y prif resymau a roddwyd gan y rhai nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i arbed ynni cartref oedd eu bod yn teimlo eu bod eisoes wedi lleihau cymaint ag y gallent, a bod yn well ganddynt fod â chartref cynnes. O ran newid i dariff ynni gwyrdd, roedd y rhwystrau yn gyfuniad o ddiffyg gwybodaeth am sut i'w wneud, tybiaeth y byddai'n ddrud a diffyg amlygrwydd (gweler Tabl 3).

Tabl 3: Prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau	Y 3 rhwystr uchaf	%
Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd	Lleihau eich defnydd o ynni cartref a dŵr <i>Sylfaen: 61*</i>	<ul style="list-style-type: none"> Eisoed wedi lleihau cymaint ag y gallaf Mae'n well gennyf fod â chartref cynnes Mae'n anodd ei wneud/ yn ormod o drafferth 	31 30 21
	Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni <i>Sylfaen: 142</i>	<ul style="list-style-type: none"> Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef Mae'n anghyfleus 	54 29 20
	Gosod mesurydd clyfar <i>Sylfaen: 267</i>	<ul style="list-style-type: none"> Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud Angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef 	47 15 15
	Newid i dariff ynni gwyrdd <i>Sylfaen: 389</i>	<ul style="list-style-type: none"> Angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud Erioed wedi meddwl amdano 	29 27 25
	Newid i ynni adnewyddadwy <i>Sylfaen: 559</i>	<ul style="list-style-type: none"> Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud Angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud Erioed wedi meddwl amdano 	40 27 16

Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae meintiau sylfaen yn amrywio – gweler uchod)

**Rhybudd – maint sylfaen bach*

Dewisiadau Teithio Gwyrdd

Mae Tabl 4 yn crynhoi ymddygiad presennol o ran **Dewisiadau Teithio Gwyrdd**.

Dywedodd cyfrannau uchel o'r rhai a arolygwyd a oedd yn gyrru neu'n mynd ar awyrennau eu bod yn cymryd camau ar hyn o bryd i ddefnyddio llai ar y car ac i hedfan llai. Dywedodd tua thri o bob pedwar o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt eu bod yn gyrru llai ac yn cerdded neu feicio mwy (79%), yn gyrru llai ac yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus mwy (74%) neu'n hedfan llai (73%). Ar yr un pryd, roedd tua un o bob tri o'r rhai a oedd eisoes yn cymryd rhai camau yn teimlo ei bod yn debyg y gallent wneud mwy.

Mewn cyferbyniad, dim ond un rhan o dair o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt (32%) oedd eisoes wedi newid neu'n cymryd camau i newid i gerbyd hybrid neu drydan.

Tabl 4: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Teithio Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau a brofwyd	% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/eisoes wedi gwneud*	% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy* *
Dewisiadau Teithio Gwyrdd	Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy	79	32
	Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu a rennir mwy	74	35
	Hedfan llai	73	26
	Newid i gerbyd allyriadau is	32	18

Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 746 i 993)

* Cyfanswm y rhai hynny yn ateb 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf'/'Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'

** Mae'r cyfleoedd mwyaf i gynyddu wedi'u cysgodi

Gan droi at yr hyn a oedd yn atal rhai pobl rhag cymryd camau i wneud Dewisiadau Teithio Gwyrdd, **cost** oedd y prif rwystr i newid i gerbyd allyriadau is. Nodwyd y gost o gaffael car hybrid neu drydan fel rhwystr gan bron i saith o bob deg o'r rhai a oedd yn gwneud dim ar hyn o bryd yn hyn o beth.

Bod â **theithiau a oedd yn rhy bell** i'w gwneud ar feic neu ar droed oedd y rheswm pennaf a oedd yn atal rhai pobl rhag defnyddio llai ar eu car a beicio neu gerdded mwy (nodwyd gan 58% o'r grŵp hwn). Rhoddodd y rhai nad oeddent yn gyrru llai ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu a rennir mwy **ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus wael** yn eu hardal fel eu prif reswm am beidio â gwneud hynny (nodwyd gan 50%).

Dyweddodd y rhai nad ydynt yn cymryd camau i hedfan llai ar hyn o bryd eu bod yn **mwynhau hedfan** (43%) a bod dewisiadau yn hytrach na hedfan yn **llai cyfleus** (38%).

Tabl 5: Prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Teithio Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau	Y rhwystrau uchaf	%
Dewisiadau Teithio Gwyrdd	Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy <i>Sylfaen: 190</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mwyafrif fy nheithiau yn rhy bell i gerdded/ beicio • Ddim yn berchen ar feic • Nid wyf yn gallu beicio/ cerdded 	58 33 26
	Gyrru llai a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu a rennir mwy <i>Sylfaen: 240</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg trafndiaeth gyhoeddus dda yn fy ardal • Yn mwynhau gyrru a ddim eisiau mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ei le • Mae'n anodd ei wneud/ yn ormod o drafferth • Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud 	50 30 29 29
	Hedfan llai <i>Sylfaen: 212</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Rwy'n mwynhau hedfan • Mae'n llai cyfleus teithio gan ddefnyddio dewisiadau eraill • Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud 	43 38 14
	Newid i gerbyd allyriadau is <i>Sylfaen: 537</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud • Yn poeni nad oes digon o bwyntiau gwefru ledled Cymru • Ddim eisiau cerbyd trydan 	68 36 28

Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae meintiau sylfaen yn amrywio – gweler uchod)

Dewisiadau Prynu Gwyrdd

Mae Tabl 6 yn crynhoi ymddygiad presennol o ran **Dewisiadau Prynu Gwyrdd**.

Roedd y gyfradd fabwysiadu honedig o'r holl ymddygiadau Dewisiadau Prynu Gwyrdd yn uchel ymhlith y rhai yr oedd pob ymddygiad yn berthnasol iddynt. Dywedodd bron i bawb (97%) eu bod yn ailgylchu. Dywedodd tua naw o bob deg eu bod yn lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (e.e. dim ond yn prynu pethau sydd eu hangen arnynt, prynu eitemau o ansawdd gwall sy'n para'n hirach ac yn benthyg neu'n rhentu eitemau) (90%), aildefnyddio pethau pan fo'n bosibl (e.e. prynu'n ail law yn hytrach na newydd, gwerthu neu roi pethau yn hytrach na'u taflu) (89%) a thrwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (87%). Yn olaf, dywedodd wyth o bob deg (80%) eu bod yn cymryd camau i siopa'n gynaliadwy.

Fodd bynnag, ar gyfer yr holl ymddygiadau hyn (ac eithrio ailgylchu), roedd cyfran uchel o'r rhai a oedd eisoes yn gwneud pob un yn teimlo y gallent wneud mwy. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer siopa'n gynaliadwy – er i fwyaf y rhai a gyfwelwyd ddweud eu bod yn gwneud hyn i ryw raddau (80%), roedd dros hanner (52%) yn teimlo bod lle i wneud mwy.

Tabl 6: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Prynu Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau a brofwyd	% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/eisoes wedi gwneud*	% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy **
Dewisiadau Prynu Gwyrdd	Ailgylchu mwy	98	21
	Lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu	90	44
	Ailddefnyddio pethau pan fo'n bosibl	89	43
	Trwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd	87	43
	Siopa'n gynaliadwy	80	52

Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 986 i 993)

* Cyfanswm y rhai hynny yn ateb 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf'/'Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'

** Mae'r cyfleoedd mwyaf i gynyddu wedi'u cysgodi

Amlinellir y prif rwystrau i wneud Dewisiadau Prynu Gwyrdd yn Nhabl 7 ac roeddent yn amrywio yn ôl yr ymddygiad:

- **Cost** oedd y prif rwystr i siopa'n gynaliadwy, y cyfeiriwyd ato gan 47% o'r rhai nad oeddent yn cymryd camau i wneud hyn ar hyn o bryd.
- **Ddim yn meddu ar yr offer neu'r sgiliau iawn** oedd y prif rwystr i drwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd, ac y cyfeiriwyd ato gan 47% o'r rhai nad ydynt yn gwneud hyn ar hyn o bryd.
- **Y ffaith ei bod yn well ganddynt fod yn berchen ar eu pethau eu hunain yn hytrach na benthyg eitemau** oedd y prif reswm a roddwyd gan y rhai nad oeddent yn cymryd camau i leihau'r hyn y maent yn ei brynu (y cyfeiriwyd ato gan 40% o'r grŵp hwn).
- **Erioed wedi meddwl amdani a ddim yn hoffi nwyddau ail law** oedd y prif ffactorau a oedd yn atal rhai pobl rhag aildefnyddio pethau lle bynnag y bo'n bosibl yn hytrach na phrynu rhai newydd (35% a 34% o'r grŵp hwn, yn eu trefn).
- Cyfeiriwyd at **wasanaethau/ opsiynau ailgylchu lleol gwael** gan 31% o'r gyfran fach iawn nad ydynt yn cymryd camau i ailgylchu mwy ar hyn o bryd.

Tabl 7: Prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Prynu Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau	Y 3 rhwystr uchaf	%
Dewisiadau Prynu Gwyrdd	Ailgylchu mwy Sylfaen: 20*	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw casgliadau/ opsiynau ailgylchu yn dda lle'r wyf yn byw Erioed wedi meddwl amdano Mae'n anodd ei wneud/ yn ormod o drafferth 	31 24 24
	Ailddefnyddio pethau pan fo'n bosibl Sylfaen: 108	<ul style="list-style-type: none"> Erioed wedi meddwl amdano Ddim yn hoffi'r syniad o ail law Mae'n anodd ei wneud/ yn ormod o drafferth 	35 34 13
	Trwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd Sylfaen: 127	<ul style="list-style-type: none"> Ddim yn meddu ar yr offer/ sgiliau iawn Mae'n anodd ei wneud/ yn ormod o drafferth Dim amser i'w wneud 	47 32 24
	Lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu Sylfaen: 101	<ul style="list-style-type: none"> Yn well gennyf fod â'm pethau fy hun yn hytrach na benthyg eitemau Yn mwynhau siopa am eitemau newydd Erioed wedi meddwl amdano 	40 26 17
	Siopa'n gynaliadwy Sylfaen: 191	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrrud i'w wneud Angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud Erioed wedi meddwl amdano 	47 33 20

Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae meintiau sylfaen yn amrywio – gweler uchod)

*Rhybudd – maint sylfaen bach

Dewisiadau Bwyd Gwyrdd

Yn olaf, mae Tabl 8 yn crynhoi'r ymddygiad presennol o ran **Dewisiadau Bwyd Gwyrdd**.

Dywedodd bron i bawb yr oedd yn berthnasol iddynt (95%) eu bod yn cymryd camau i leihau eu gwastraff bwyd, ac roedd tua thri o bob pedwar (77%) yn gwneud ymdrech i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy. Roedd cyfran uchel o'r olaf yn teimlo y gallent weithredu mwy yn hyn o beth, fodd bynnag (51% o'r grŵp hwn yn gyffredinol).

Tabl 8: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Bwyd Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau a brofwyd	% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/eisoes wedi gwneud*	% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy **
Dewisiadau Bwyd Gwyrdd	Lleihau eich gwastraff bwyd	95	31
	Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy	77	51

Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 971 - 987)

** Cyfanswm y rhai hynny yn ateb 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf/'Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'*

*** Mae'r cyfleoedd mwyaf i gynyddu wedi'u cysgodi*

Gan droi at y rhwystrau i Ddewisiadau Bwyd Gwyrdd, tybiaeth ei bod yn **costio gormod/ yn rhy ddrud** oedd y prif reswm sy'n atal pobl rhag cymryd camau i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (y cyfeiriwyd ato gan 56% o'r grŵp hwn). O ran lleihau gwastraff bwyd (yr oedd y mwyafrif llethol o'r rhai a gyfwelwyd eisoes yn ei wneud), y prif rwystrau oedd **ddim yn hoffi'r syniad o fwyta bwyd dros ben a diffyg amlygrwydd**, gan nad oeddent erioed wedi meddwl amdano (y cyfeiriwyd ato gan 27% a 22% o'r grŵp hwn, yn eu trefn) (gweler Tabl 9).

Tabl 9: Prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Bwyd Gwyrdd

Thema	Ymddygiadau	Y 3 rhwystr uchaf	%
Dewisiadau Bwyd Gwyrdd	Lleihau eich gwastraff Bwyd <i>Sylfaen: 53*</i>	<ul style="list-style-type: none"> Ddim yn hoffi'r syniad o fwyta bwyd dros ben Erioed wedi meddwl amdano Angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud 	27 22 18
	Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy <i>Sylfaen: 218</i>	<ul style="list-style-type: none"> Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud Angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud Mae'n anodd ei wneud/ yn ormod o drafferth 	56 17 17

Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae meintiau sylfaen yn amrywio – gweler uchod)

**Rhybudd – maint sylfaen bach*

3.2 Gwybodaeth am y camau y gall unigolion eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd

Pan ofynnwyd yn gyffredinol faint yr oeddent yn teimlo yr oeddent yn ei wybod am y camau unigol y gall pobl yng Nghymru eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, roedd dros hanner y rhai a gyfwelwyd (55%) yn teimlo bod eu gwybodaeth yn gyfyngedig - dywedodd 44% eu bod yn gwybod 'ychydig' ac roedd 10% yn teimlo eu bod yn gwybod 'dim'.

Y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol DE llai llewyrchus a menywod oedd y mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gwybod ychydig neu ddim am ba gamau y gallent eu cymryd. Dywedodd 63% o'r grwpiau DE llai llewyrchus a gyfwelwyd hyn, ac felly hefyd 61% o fenywod, o'u cymharu â 52% o ABC1s a 47% o ddynion.

Mewn cyferbyniad, dim ond deg o'r rhai a gyfwelwyd (10%) oedd yn teimlo eu bod yn gwybod 'llawer iawn' am ba gamau y gallai pobl eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd, tra bod tua un o bob tri (34%) yn teimlo eu bod yn gwybod 'cryn dipyn'.

Awgrymwyd yr ymddygiadau i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a drafodwyd uchod i'r ymatebwyr wedyn, a gofynnwyd iddynt faint neu ba mor ychydig yr oeddent yn teimlo eu bod yn ei wybod am sut i wneud pob un.

Yr ymddygiadau yr oedd yr ymatebwyr yn **teimlo'n fwyaf gwybodus** amdanynt (lle'r oedd o leiaf tri o bob pedwar o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'cryn dipyn') oedd:


- Ailgylchu mwy (**88% yn wybodus**/ 11% ddim yn wybodus)
- Lleihau eu gwastraff bwyd (**85% yn wybodus**/ 14% ddim yn wybodus)
- Ailddefnyddio pethau pan fo'n bosibl (**83% yn wybodus**/ 15% ddim yn wybodus)
- Lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (**81% yn wybodus**/ 19% ddim yn wybodus)
- Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy (**79% yn wybodus**/ 19% ddim yn wybodus)
- Lleihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr (**78% yn wybodus**/ 21% ddim yn wybodus)
- Gyrru llai a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus mwy (**76% yn wybodus**/ 22% ddim yn wybodus).

Ar y llaw arall, y rhai a oedd **leiaf cyfarwydd**, lle'r oedd canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gwybod 'dim' neu ddim ond 'ychydig' am sut i wneud pob un uchaf, oedd:

- Newid i dariff ynni gwyrdd (54% yn wybodus/ **43% ddim yn wybodus**)
- Newid i gerbyd allyriadau is (57% yn wybodus/ **38% ddim yn wybodus**)
- Newid i ynni adnewyddadwy (62% yn wybodus/ **35% ddim yn wybodus**)
- Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (66% yn wybodus/ **32% ddim yn wybodus**)
- Siopa'n gynaliadwy (67% yn wybodus/ **31% ddim yn wybodus**).

Caiff lefelau gwybodaeth ar gyfer pob un o'r un ymddygiad ar bymtheg eu crynhoi yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Faint y mae pobl yn ei wybod am sut i ymgymryd â gwahanol ymddygiadau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, %



Sylfaen: Pawb (1,000)

3.3 Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (byrdymor a thymor hwy)

Holwyd ymatebwr i'r arolwg am eu parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd neu i'w gwneud yn amlach (os yn gwneud eisoes) yn y byrdymor (hynny yw, yn y flwyddyn nesaf) ac yn y tymor hwy (hynny yw, yn y pum mlynedd nesaf).

Roedd parodrwydd i weithredu **yn y byrdymor** yn gyffredinol uchel. Gan edrych ar y rhai a ddywedodd bod pob cam yn berthnasol iddyn nhw, roedd y mwyafrif llethol o tua wyth i naw o bob deg yn barod (hynny yw, wedi ateb 'ydw, yn bendant' neu 'ydw, yn fwy na thebyg') i wneud pob un o'r canlynol neu eu gwneud yn amlach yn ystod y flwyddyn nesaf:

- Lleihau eu gwastraff bwyd (92% yn barod yn gyffredinol)

- Ailgylchu mwy (90% yn barod)
- Lleihau eu defnydd o ynni cartref a dŵr (87% yn barod)
- Lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (86% yn barod)
- Ailddefnyddio pethau pan fo'n bosibl (86% yn barod)
- Trwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (84% yn barod)
- Siopa'n gynaliadwy (77% yn barod)
- Addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (77% yn barod).

Roedd cyfrannau rhyw fymryn yn is (ond y mwyafrif o hyd) yn barod i:

- Fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (74% yn barod)
- Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy (73% yn barod)
- Gyrru llai a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus mwy (66% yn barod)
- Hedfan llai (64% yn barod)
- Gosod mesurydd clyfar (63% yn barod)
- Newid i dariff ynni gwyrdd (57% yn barod).


Ar y llaw arall, roedd llai na hanner (41%) yn barod i ystyried newid i ynni adnewyddadwy neu newid i gerbyd allyriadau is yn ystod y flwyddyn nesaf. A dweud y gwir, atebodd cynifer y byddent yn bendant neu'n fwy na thebyg **yn amharod** i wneud y rhain yn y byrdymor (38% yn achos newid i gerbyd hybrid neu drydan a 34% o ran newid i ynni adnewyddadwy).

Yr ymddygiadau eraill yr oedd rhywfaint o wrthwynebiad i'w mabwysiadu yn yr hirdymor yn amlwg oedd:

- Gosod mesurydd clyfar (22% yn amharod)
- Gyrru llai a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu a rennir mwy (20% yn amharod)
- Hedfan llai (19% yn amharod)
- Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy (16% yn amharod)

Hefyd, roedd cyfrannau sylweddol o'r rhai a gyfwelwyd yn ansicr pa un a fyddent yn newid i dariff ynni gwyrdd (28% ddim yn siŵr) neu'n newid i ynni adnewyddadwy (25% ddim yn siŵr) (gweler Ffigur 4).

Ffigur 4: Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn ystod y flwyddyn nesaf, %



Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 757 i 989)

Sylwer: Yn barod = y rhai a atebodd Ydw, yn bendant/ Ydw, o bosibl; Yn amharod = y rhai a atebodd Nac ydw, yn bendant/ Nac ydw, yn fwy na thebyg


Roedd parodrwydd i ystyried mabwysiadu pob ymddygiad **yn y tymor hwy**, hynny yw yn y pum mlynedd nesaf, yn gyffredinol uwch nag yn y byrdymor (gweler Ffigur 5). Yr unig eithriad i hyn oedd yn achos lleihau gwastraff bwyd, a oedd yn uchel iawn i gychwyn.

Roedd y cynnydd mwyaf yn amlwg ar gyfer y camau lle'r oedd parodrwydd byrdymor i weithredu ar ei isaf (hynny yw, newid i gerbyd allyriadau is neu newid i ynni adnewyddadwy). Er i'r gyfran a oedd yn barod i wneud bob un gynyddu tua 10% wrth edrych ar gyfnod amser estynedig, roedd parodrwydd i weithredu yn dal i fod yn gymharol isel ar gyfer yr ymddygiadau hyn – roedd 52% yn barod i newid i gar hybrid neu drydan ac roedd 51% yn barod i newid i ynni adnewyddadwy yn y pum mlynedd nesaf.

Ffigur 5: Parodrwydd i gymryd camau penodol yn y byrdymor o'i gymharu â'r hirdymor, %

Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae'r maint sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 757 i 989)

Sylwer: Yn barod = y rhai a atebodd Ydw, yn bendant/ Ydw, o bosibl



3.4 Deall pa gamau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd


Yn olaf, awgrymwyd y rhestr o ymddygiadau i ymatebwyr i'r arolwg a gofynnwyd iddynt ddewis y tri cham yr oeddent yn meddwl fyddai'n cael yr effaith fwyaf o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 6.

Y cam y tybir ei fod yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd ac a ddewiswyd gan y gyfran fwyaf o ymatebwyr oedd **hedfan llai**, a ddewiswyd gan un o bob tri (33%) o'r rhai a gyfwelwyd. Dewisodd bron i dri o bob deg (28%) leihau eich defnydd o ynni cartref a dŵr, a dewisodd un o bob pedwar newid i

ygni adnewyddadwy, ailgylchu mwy, addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ygni a gyrru llai a cherdded neu feicio mwy.

Y camau y teimlwyd eu bod yn llai pwysig i fynd i'r afael â newid hinsawdd (y dewiswyd pob un ohonynt gan tua un o bob deg neu lai o'r rhai a arolygwyd) oedd gosod mesurydd clyfar, newid i dariff ygni gwyrdd, bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy a siopa'n gynaliadwy.

Ffigur 6: Tybiaethau o ba gamau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd, %



4. Crynodeb a chasgliadau

